# Tŷ Agored

Rhifyn 1 2023 Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor**





**Gwnewch yn fawr o'r lle sydd ar gael gennych a helpwch ein stadau i fod llawn blodau drwy gymryd rhan yn y Gystadleuaeth Arddio i Denantiaid a Lesddeiliaid – manylion ar dudalennau 4 a 5**





Cyfeiriad dychwelyd: Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN

Cyngor Abertawe Swansea Council

# Y tu mewn

## ERTHYGLAU


Safon Ansawdd Tai Cymru ................ 1
Diogelu a cham-drin ........................ 3
Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored ........................................... 3
Cystadleuaeth Arddio 2023 .............. 4


## CYSYLLTIADAU LLEOL


Llwybrau cerdded a beicio newydd yn Abertawe ........................ 6


## TENANTIAETH AC YSTAD


Y diweddaraf am y Ddeddf Rhentu Cartrefi .................................. 7
Rhagor o Gartrefi - Diweddariad ....... 8
HomeSwapper .................................. 10
Lleoedd Llesol Abertawe ................... 10
Llais y Tenantiaid ............................... 11
Newyddion Byw'n Annibynnol ........... 12
Atgoffa am Atgyweiriadau ................ 14
Cadw anifeiliaid anwes ..................... 15
Fy Nhai - Eich Ateb Ar-lein ................ 15
Gwasanaethau cefnogi ..................... 16


## CYNGOR CYFFREDINOL


Sgamiau ............................................ 17
Anwedd, llwydni a lleithder yn eich cartref ........................................ 18
Diogelwch Nwy ................................. 21
Gweithio gyda'n gilydd i'ch cadw'n ddiogel - ymarfer hyfforddi'r Gwasanaeth Tân .............................. 22
Eich Gwastraff, Eich Cyfrifoldeb .......... 22
Ailgylchu Celfi .................................... 23
Gwybodaeth am Ailgylchu ................ 24
Mynd yn Ddigidol .............................. 26


## CYDRADDOLDEB


Allwn ni eich helpu? .......................... 26


**MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN TŶ AGORED YN GYWIR WRTH FYND I'R WASG.**



# Croeso i Tŷ Agored

Croeso i rifyn diweddaraf Tŷ Agored. Mae'r rhifyn hwn yn dechrau gyda diweddariad ar y gwaith gwella rydym yn ei wneud i'n cartrefi i sicrhau ein bod yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Ond nid dyna ddiwedd y gwaith, gan fod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno safonau newydd gyda phwyslais mawr ar wneud cartrefi'n fwy fforddiadwy i fyw ynddynt. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y safonau newydd a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn eich cartrefi.

Gallwch nawr gymryd rhan yn ein Cystadleuaeth Arddio hynod boblogaidd! Rydym yn parhau â chystadleuaeth tynnu lluniau ac mae llawer o gategorïau y gallwch gymryd rhan ynddynt, p'un a ydych yn arddwr profiadol neu'n rhoi cynnig ar arddio am y tro cyntaf! Rydym yn dwlu ar weld eich gerddi, maent yn bywiogi ein stadau, felly cymerwch ran! Ceir manylion ar dudalen 4-5.

Mae anwedd, llwydni a lleithder wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar a gwyddom fod hyn yn broblem i lawer o bobl. Rydym wedi casglu gwybodaeth a chyngor ar beth i'w wneud os ydych yn wynebu'r problemau hyn - gweler tudalennau 18-21.

Yn olaf, dyma rifyn papur olaf Tŷ Agored a gaiff ei bostio atoch. Bydd rhifynnau'r dyfodol ar gael fel fersiwn ddigidol y gallwch ei derbyn drwy e-bost drwy gofrestru â ni. Gallwn barhau i ddarparu copi caled os byddai'n well gennych ond mae'n RHAID i chi roi gwybod i ni. Mae manylion ynghylch sut i gofrestru ar gyfer fersiwn e-bost neu gofrestru i barhau i dderbyn copi caled ar gael ar dudalen 26.

# Cysylltiadau Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Golygydd - Nicola Jackson | ☎ 635045 |
| Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau | ☎ 635100 |
| Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa | ☎ 521500 |
| Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr | ☎ 648507 |
| Opsiynau Tai | ☎ 533100 |
| Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd | ☎ 635600 |
| Ymholiadau Budd-dal Tai | ☎ 635353 |

**Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog**

*Mae'r ARDAL GANOLOG yn cwmpasu ardaloedd tai Townhill a chanol y dref a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill a Chanol y Dref.*

✉ **swyddfadai.ardalaganolog@abertawe.gov.uk** ☎ **01792 513900**

**Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain**

*Mae ARDAL Y DWYRAIN yn cwmpasu ardaloedd tai Eastside a Threforys a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Treforys.*

✉ **swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk** ☎ **01792 601720**

**Swyddfa Dai Ardal y Gogledd**

*Mae ARDAL Y GOGLEDD yn cwmpasu ardaloedd tai Blaen-y-maes a Phen-lan a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Blaen-y-maes.*

✉ **swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk** ☎ **01792 534060**

**Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin**

*Mae ARDAL Y GORLLEWIN yn cwmpasu ardaloedd tai Gorseinon, West Cross a Sgeti a bydd y gwasanaeth wedi'i leoli yn Hwb Llyfrgell Gorseinon a Swyddfa Dai Sgeti.*

✉ **swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk** ☎ **01792 897700**

**Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan**
**www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwch**
✉ **tai@abertawe.gov.uk**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

# Safon darged Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru yw Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ers 2014 pan gyflwynwyd SATC am y tro cyntaf, rydym wedi buddsoddi dros £546m mewn gwella'n cartrefi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £165m tuag at gostau'r rhaglen drwy eu Lwfans Atgyweiriadau Mawr.

## Cynnydd hyd yn hyn

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r arian yn cael ei wario. Gwariwyd y swm mwyaf o'r arian ar sicrhau bod cartrefi mewn cyflwr da - mae hyn yn cynnwys gwaith megis gwella cartrefi gyda rendro wedi'i inswleiddio, adnewyddu toeon, drysau a ffenestri.

| SATC | £ |
|---|---|
| Bod mewn cyflwr da | £217,934,000 |
| Bod yn saff ac yn ddiogel | £68,355,000 |
| Cael en gwresogi'n ddigonol, bod yn effeithlon o ran tanwydd a bod wedi'u hinswleiddio'n dda | £33,630,000 |
| Cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi cyfoes | £147,218,000 |
| Bod wedi'u lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel | £27,923,000 |
| Bod yn addas ar gyfer anghenion penodol y rheini sy'n byw ynddynt, os yw hynny'n bosib, er enghraifft y rheini ag anableddau | £51,300,000 |
| | **£546,360,000** |

## Cydymffurfio a Methiannau Derbyniol

**Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r cyngor roi'r diweddaraf i Lywodraeth Cymru am ei gynnydd**



**wrth gyflawni'r safon.** Ystyrir bod cartrefi'n cydymffurfio â SATC pan fo'r holl elfennau SATC mewn cyflwr rhesymol ac yn gweithio fel a fwriedir.

Os nad oes modd cwblhau unrhyw waith, cyfeirir at hyn fel 'methiant derbyniol'. Mae enghreifftiau'n cynnwys achosion lle nad yw'n bosib gwneud gwaith oherwydd bod y tenant yn sâl neu nid oes modd cael mynediad i'r eiddo neu am fod y tenant eisoes wedi gwneud ei welliannau ei hun.

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 70% o gartrefi'r cyngor yn cydymffurfio'n llawn, sy'n dangos cynnydd o gymharu â 57% yn y flwyddyn flaenorol. O'r eiddo



sy'n weddill sydd wedi cael methiant derbyniol, mae 15% o ganlyniad i ddewis y preswylydd ac 15% oherwydd amseru (e.e. nid oedd gwneud y gwaith yn gyfleus i'r tenant).

## Cydymffurfio â SATC

| Elfen SATC | Eiddo sy'n cydymffurfio'n llwyr | % eiddo sy'n cydymffurfio'n llwyr |
|---|---|---|
| Toeon | 13,447 | 99% |
| Ffenestri | 13,634 | 100% |
| Drysau | 13,535 | 99% |
| Ceginau | 12,117 | 89% |
| Ystafelloedd ymolchi | 11,668 | 86% |
| Systemau gwresogi | 13,378 | 98% |
| Sgôr ynni | 11,847 | 87% |
| Systemau trydanol | 13,563 | 99% |
| Larymau mwg | 13,628 | 100% |
| Gerddi | 10,980 | 81% |

## Cyflawni SATC a Chefnogi'r Gymuned

Mae timau o fewn y cyngor wedi gweithio'n galed i gynllunio, dylunio a chyflawni atgyweiriadau a gwelliannau mawr ar nifer mawr o gartrefi. Rhan fawr o'r llwyddiant hwn oedd rôl y Tîm Gwella Cartrefi, sydd wedi curo ar filoedd o ddrysau i drafod gwelliannau cynlluniedig y cyngor a sicrhau bod tenantiaid yn gwybod am yr hyn a gynlluniwyd ar gyfer eu cartrefi.

Mae buddsoddi mewn tai yn cael effaith economaidd enfawr yn lleol - mae Gwasanaethau Adeiladau'r Cyngor wedi penodi a hyfforddi dros 60 o brentisiaid ac wedi ymgysylltu ag 80 o weithwyr masnach cwbl gymwys, yn ogystal â chyflogi dros 300 o staff yn barhaus.





Mae tîm Y Tu Hwnt i Frics a Morter y cyngor yn helpu contractwyr lleol i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a swyddi, yn enwedig i'r rheini y gallant fod wedi profi rhwystrau i gyflogaeth yn y gorffennol. Helpodd y tîm i greu 89 o swyddi, 46 o gyfleoedd prentisiaeth a nifer o gyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith.

## Y Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu codi'r safonau tai ymhellach - bydd SATC newydd yn rhoi pwyslais mawr ar wneud cartrefi'n fwy fforddiadwy i fyw ynddynt, gyda'r nod o'u gwneud yn hynod ynni effeithlon, sy'n golygu na fydd angen llawer i'w gwresogi, ac y bydd cartrefi'n cynhyrchu llai o allyriadau carbon.



Mae'r safonau newydd yn uchelgeisiol a bydd angen technolegau newydd a sgiliau newydd ar gartrefi er mwyn eu cyrraedd, a buddsoddiad ychwanegol mawr er mwyn eu cyflawni.

Yn gyffredinol, bydd y safonau newydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fywydau pobl.

## Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am atgyweiriadau a gwelliannau mawr a gynlluniwyd ar gyfer eich cartref, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal am fanylion.

# Diogelu a cham-drin

**Ystyr diogelu yw cadw pobl yn ddiogel rhag niwed. Dyma sut mae ysgolion, yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau iechyd a'r cyhoedd yn gweithio gyda'i gilydd i gadw plant ac oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel. Mae pawb yn gyfrifol am sicrhau bod plant ac oedolion diamddiffyn yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn.**

## Diogelu plant

Os ydych yn meddwl bod plentyn – sef unrhyw un dan 18 oed - yn cael ei niweidio neu ei esgeuluso neu os ydych yn credu ei fod mewn perygl, dylech gysylltu â Phwynt Cyswllt Unigol Abertawe. Mewn argyfwng lle gall fod y plentyn mewn perygl dybryd, ffoniwch ☎ **999**.

Gallwch ffonio nhw ar ☎ **01792 635700** yn ystod oriau swyddfa neu mae'r Tîm Dyletswydd Brys ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol drwy ffonio: ☎ **01792 775501**
✉ **mynediadiwybodaeth@abertawe.gov.uk**.

## Diogelu Oedolion

Ystyr oedolyn diamddiffyn yw rhywun y mae angen, neu y gall fod angen gwasanaethau gofal cymunedol arno oherwydd rheswm meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch, ac efallai na all ofalu am ei hunan neu amddiffyn ei hunan rhag niwed neu gam-fanteisio.

Gallwch gysylltu â'r Tîm Diogelu Oedolion drwy ffonio ☎ **01792 636854** (yn ystod oriau swyddfa).
✉ **AdultSafeguardingTeam@abertawe.gov.uk**

Os ydych chi'n meddwl bod gweithred droseddol wedi cael ei chyflawni, gallwch ffonio'r heddlu ar ☎ **01792 456999** neu ☎ **101**. Mewn argyfwng ffoniwch ☎ **999**.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

**www.abertawe.gov.uk/diogeluplant**

**www.abertawe.gov.uk/amddiffynplant**

**www.abertawe.gov.uk/pryderonamddiogeluoedolion?lang=cy**

Ar ôl i adroddiad gael ei dderbyn, gwneir ymholiadau a all arwain at ganlyniadau gwahanol. Weithiau nid yw ymholiadau'n dangos unrhyw feysydd pryder sylweddol ar gyfer y plentyn neu'r oedolyn diamddiffyn ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach. Fodd bynnag, mae'n well ymchwilio i sefyllfa a phenderfynu bod y cyfan yn iawn nag anwybyddu arwyddion rhybuddio posib a pheryglu plentyn neu oedolyn diamddiffyn.

# Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen? Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Gwasanaethau Tai, Dinas a Sir Abertawe, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN, Rhadbost RSCT-JJZH-KLJZ neu e-bostiwch ✉ **tai@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch ☎ **01792 635045**.

**Diolch am eich amser.** Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

# Cystadleuaeth Arddio 2023

## Rydym yn falch o gyhoeddi lansiad Cystadleuaeth Arddio i Denantiaid a Lesddeiliaid 2023!

### Eleni, rydym yn parhau gyda'r gystadleuaeth ffotograffiaeth ac mae digonedd o gategorïau i chi gystadlu ynddynt.

Er ein bod bob amser yn hapus i dderbyn ceisiadau gan ein garddwyr mwy profiadol, nid oes rhaid i chi fod yn arbenigwr i gystadlu. Os ydych wedi sylweddoli'n ddiweddar eich bod yn caru garddio neu os ydych wedi gwneud rhai gwelliannau i'ch gardd ac yr hoffech eu dangos, yna dyma'r gystadleuaeth i chi! Yr hyn rydym ni wir eisiau ei weld yw sut rydych chi'n gwneud yr ymdrech i wella'ch amgylchedd a'ch lle yn yr awyr agored. Does dim rhaid iddi fod yn berffaith!

Gallwch anfon cyn lleied neu gynifer o ffotograffau ag y dymunwch ond gwnewch yn siŵr eich bod yn adlewyrchu faint o waith caled ac ymdrech rydych wedi'i wneud.  Ceisiwch ddangos eich gardd ar ei gorau!

Mae'r gystadleuaeth ar agor i holl denantiaid a lesddeiliaid Abertawe, felly p'un a ydych wedi cymryd rhan yn y gorffennol neu'n newydd i'r gystadleuaeth, beth am roi cynnig arni? Efallai y byddwch yn ennill gwobr ariannol hyd yn oed!

## Categorïau eleni yw:



- Yr ardd orau (rhoddir gwobr ar gyfer y safle 1af, yr 2il a'r 3ydd safle)
- Yr ardd gymunedol neu gyfadeilad lloches gorau
- Y defnydd gorau o le bach (gardd gynhwysyddion, basgedi etc.)
- Yr ardd ffordd o fyw orau
- Yr ardd fwytadwy orau
- Yr ardd blodau gwyllt orau
- Garddwr newydd gorau
- Y blodyn haul gorau (categori person ifanc)
- Yr ardd eco orau (deunyddiau wedi'u hailgylchu, planhigion ecogyfeillgar etc.)
- Yr ardd a drawsnewidiwyd orau

Mae'r categori yr ardd a drawsnewidiwyd orau yn gategori delfrydol i gymryd rhan ynddo os ydych wedi bod yn gweithio'n galed i geisio gwella eich lle yn yr awyr agored. I fod yn gymwys i gymryd rhan, mae'n RHAID i chi anfon llun o'ch gardd atom pan ddechreuoch chi ar y gwaith a llun ohoni fel y mae nawr. Nid oes rhaid i'r trawsnewidiad fod wedi'i gwblhau – gall fod yn waith sydd ar y gweill ond mae angen i ni allu gweld y gwahaniaeth rydych chi wedi'i wneud i'r ardd.

# Sut i gyflwyno cais

Mae'n hawdd iawn i gymryd rhan yn y gystadleuaeth. E-bostiwch eich llun(iau) i
✉ **Tai@abertawe.gov.uk** neu llenwch y ffurflen ar-lein ar ein gwefan
**www.abertawe.gov.uk/cystadleuaetharddioidenantiaid**

Dylech gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, y categori neu'r categorïau rydych yn cymryd rhan ynddynt a'ch rhif ffôn.

Fel arall, gallwch bostio'ch llun i 'Cystadleuaeth Arddio i Denantiaid a Lesddeiliaid', Gwasanaethau Tai Cyngor Abertawe, Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN.

Os na allwch dynnu llun o'ch gardd, e-bostiwch ni neu rhowch wybod i'ch Swyddog Tai a byddwn yn trefnu i rywun ymweld â'ch gardd i dynnu llun ar eich rhan.

**Y dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth yw dydd Gwener 25 Awst 2023. Pob lwc!**

## Amodau a Thelerau

- Mae'r gystadleuaeth yn agored i denantiaid a lesddeiliaid Cyngor Abertawe'n unig.
- Dylai pob ffotograff a dynnir fod yn ddiweddar (o fewn y 6 mis diwethaf) ac yn adlewyrchiad cywir o'ch gardd.
- Dyfernir 1af, 2il a 3ydd safle i enillwyr categori'r Ardd Orau. Gall hyn gynnwys naill ai gardd flaen neu ardd gefn.
- Gall ceisiadau ar gyfer Yr Ardd Fwytadwy fod mewn cynwysyddion neu fel rhan o ardd (dan do neu yn yr awyr agored)
- Mae'n rhaid i 'Ardd Ffordd o Fyw' ddangos ôl gofal da ond efallai na fydd yn cael ei hystyried yn ardd 'draddodiadol' neu 'ffurfiol' ag amrywiaeth mawr o flodau a phlanhigion. Mae angen i'r ardd wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael i fod yn addas ar gyfer ffordd o fyw'r teulu.
- Mae'r categori 'Y defnydd gorau o le bach' yn cyfeirio at ardal na ellir ei hystyried yn ardd, h.y. lle bach y tu allan i eiddo.
- Does dim rhaid i chi fod yn denant newydd neu'n lesddeiliad i gymryd rhan yn y categori 'Garddwr Newydd Gorau' ond mae'n rhaid eich bod yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth am y tro cyntaf.
- Ar gyfer yr 'Ardd a Drawsnewidiwyd Orau', hoffem weld sut roedd eich gardd yn edrych o'r blaen a beth rydych wedi'i wneud i'w thrawsnewid. Does dim rhaid bod yr ardd sydd wedi'i hen sefydlu neu wedi'i gorffen - mae gennym ddiddordeb mewn gweld y gwaith rydych chi wedi'i wneud. Bydd angen i chi ddarparu lluniau 'cyn' ac 'ar ôl'.
- Gallwch anfon cynifer o luniau ag y mynnwch, fodd bynnag caiff y gystadleuaeth ei barnu yn ôl eich sgiliau garddio, nid eich sgiliau tynnu llun.
- Dylai'r ffotograffau ddangos lluniau o'ch gardd yn unig ac ni ddylent ddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyfeiriad neu ddangos pwy ydych chi neu aelodau o'ch teulu.
- Os na allwch gyflwyno llun eich hun, gallwch ofyn i berson arall wneud hynny ar eich rhan. Mae'n rhaid i'r person sy'n cyflwyno'r llun ddarparu manylion y person sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth.
- Nodwch yn glir y categori rydych yn cymryd rhan ynddo. Gallwch gymryd rhan mewn mwy nag un os dymunwch.
- Ni allwn ddychwelyd unrhyw ffotograffau a dderbyniwn drwy'r post.
- Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac anfon eich ffotograff atom, rydych yn rhoi eich caniatâd i ni ddefnyddio'r llun ar ein gwefan, ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol ac mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol. Byddwn yn cadw'r llun am gyfnod o 2 flynedd ar ôl i'r gystadleuaeth gau.
- Caiff pob cynnig ei wirio a'i ddilysu pan fydd y gystadleuaeth yn cau.

# Cysylltiadau Lleol



## Llwybrau cerdded a beicio newydd yn Abertawe

**Mae cyfleoedd i gerdded a beicio yn Abertawe'n cynyddu wrth i dri llwybr ychwanegol gael eu creu ar draws y ddinas.**





Mae llwybrau beicio a cherdded pwrpasol oddi ar y ffordd wedi'u datblygu rhwng Gorseinon a Phenllergaer, ar hyd Ynysallan Road ger Heol Las a rhwng cylchfan Treforys ac Ynysforgan.

Mae'r holl lwybrau'n darparu cysylltiadau hanfodol â rhwydweithiau beicio a cherdded presennol ac yn galluogi preswylwyr i ddewis ffyrdd amgen o deithio rhwng un gymuned i'r llall.

Un llwybr diweddar i gael ei agor yn ffurfiol i'r cyhoedd yw'r rhan rhwng Pengelli a Phontarddulais. Mae'r llwybr ym Mhengelli wedi gwneud defnydd o hen drac rheilffordd nad yw'n cael ei ddefnyddio sy'n llawn tyfiant ac sydd bellach wedi'i adfywio, gan helpu pobl leol i ddysgu rhagor am eu treftadaeth ddiwydiannol.

Yn ogystal â chwblhau llwybrau'n ddiweddar, bydd gwelliannau i lwybr arall oddi ar y ffordd sy'n ymestyn ar draws Comin Clun rhwng pentref Llandeilo Ferwallt a Mayals Road.

Yn dilyn cwblhau llwybr ar hyd Mayals Road y llynedd, bydd y cynlluniau diweddaraf yn galluogi preswylwyr penrhyn Gŵyr i gerdded a beicio rhwng penrhyn Gŵyr a Bae Abertawe'n ddiogel.





# Y diweddaraf am y Ddeddf Rhentu Cartrefi

**Daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym ar 1 Rhagfyr 2022 ac mae'n effeithio ar bob tenant a landlord yn y sector rhentu cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Abertawe fel eich landlord a chi fel ein tenant.**

## Gweithio gyda'n gilydd i roi cartref diogel i bawb

Un o'r prif newidiadau a gyflwynwyd gan y ddeddf newydd yw 'contractau meddiannaeth' i ddisodli cytundebau tenantiaeth. Rhaid darparu datganiad ysgrifenedig o'r contract i bob tenant. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn nodi telerau eich contract ac mae'n egluro'r hyn y gallwch ac na allwch ei wneud a'r hyn y gall ac na all Cyngor Abertawe, fel eich landlord, ei wneud.

Erbyn hyn dylai pob tenant fod wedi derbyn datganiad ysgrifenedig o'r cytundeb.

Does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth gyda'r contract, fel ei lofnodi na'i ddychwelyd. Dylech ei ddarllen a'i gadw'n ddiogel.

Bydd eich contract hefyd yn cynnwys;

- Ffurflen RHW2 Hysbysiad o Gyfeiriad y Landlord - ffurflen y mae gofyn i ni ei darparu i chi sy'n cynnwys manylion cyswllt Cyngor Abertawe, fel eich landlord.
- Adendwm Dodrefn - caiff ei gynnwys dim ond os oes gennych denantiaeth wedi'i dodrefnu..

**Os gwelwch fod unrhyw fanylion ar eich contract meddiannaeth newydd yn anghywir, fel enw'r tenant, neu os nad ydych wedi derbyn eich contract, rhowch wybod i'ch Swyddfa Dai Ardal.**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar wefan Llywodraeth Cymru: **www.llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi**

Mae canllaw hawdd ei ddarllen ar gael hefyd i'ch helpu i ddeall yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y contractau newydd. **llyw.cymru/tenantiaid-mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi-hawdd-ei-ddeall**.

Os oes angen rhagor o fanylion arnoch ynghylch yr hyn y mae'r newid hwn yn ei olygu i chi, e-bostiwch **tai@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch eich Swyddfa Dai Ardal (manylion isod) neu Alison Winter, Swyddog Cyfranogiad ar ☎ **07775221453**.

| | |
|---|---|
| **Swyddfa Ardal y Gogledd** | ☎ **01792 534060** |
| **Swyddfa Ardal y Dwyrain** | ☎ **01792 601720** |
| **Swyddfa Ardal y Gorllewin** | ☎ **01792 897700** |
| **Swyddfa'r Ardal Ganolog** | ☎ **01792 513900** |

**Sylwer, bydd tenantiaid sydd wedi dechrau eu tenantiaeth ers 1 Rhagfyr 2022 wedi derbyn eu contract meddiannaeth ysgrifenedig pan wnaethant lofnodi ar gyfer yr eiddo.**



# Rhagor o Gartrefi - Diweddariad

## Cartrefi cyngor newydd yn barod i groesawu eu tenantiaid

**Mae ein rhaglen Rhagor o Gartrefi yn parhau i ddatblygu'n dda. Mae nifer o gartrefi cyngor newydd wedi cael eu hadeiladu ers y diweddariad diwethaf yn 'Tŷ Agored', ynghyd ag addasiadau a phryniadau o hen dai cyngor.**





Ariennir y Rhaglen Rhagor o Gartrefi drwy grantiau amrywiol gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft grant y Rhaglen Tai Arloesol (RhTA), y Grant Tai Cymdeithasol ac arian a gasglwyd drwy renti'r cyngor. Mae gennym uchelgais i adeiladu 1,000 o dai cyngor ynni effeithlon newydd o fewn deng mlynedd - y prosiect adeiladu tai cyngor mwyaf ers cenhedlaeth. Bydd hyn yn helpu'r cyngor i gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy yn Abertawe, i leihau rhestri aros am dai ac i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â digartrefedd mewn ffordd effeithiol.

Mae ein holl gartrefi newydd wedi'u hadeiladu i safon uchel gan sicrhau lefelau uchel iawn o inswleiddio, ac maent yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy blaengar fel pympiau gwres o'r ddaear, paneli solar a batris tesla. Mae'r rhain yn sicrhau y gall y cartrefi newydd leihau swm yr ynni a ddefnyddir gan denantiaid, er mwyn i ynni gael ei gynhyrchu gan yr haul, ac er mwyn storio ynni dros ben. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ein tenantiaid filiau tanwydd isel iawn a bod ein cartrefi newydd eu hadeiladu yn addas i'r dyfodol.

## Tai Newydd

### Cherry Blossom Close, West Cross

Mae'r cartrefi cyngor newydd diweddaraf yn Cherry Blossom Close, West Cross, ar safle a adwaenir gynt fel Y Cylch.  Fe'u cwblhawyd ym mis Mawrth 2023. Mae'r cartrefi newydd yn cynnwys 6 byngalo pâr.

Adeiladwyd y cartrefi gan dîm Gwasanaethau Adeiladau'r cyngor, gyda chymorth gan dîm o brentisiaid. Rhoddodd y cynllun gyfle i'r prentisiaid adeiladu dau eiddo eu hunain, a datblygu sgiliau newydd drwy weithio gyda dulliau adeiladu modern sy'n gysylltiedig ag ynni.

### Hillview, y Clâs

Cwblhawyd y datblygiad Hillview Crescent yn y Clâs ym mis Mawrth 2022, ac mae'n cynnwys 25 o gartrefi ynni effeithlon â 3 ystafell wely. Mae'r datblygiad newydd gyferbyn ag adeilad ysgol newydd YGG Tan-y-Lan ac mae hefyd ardal chwarae wedi'i hailwampio gerllaw.

**Yn ogystal â phrosiectau adeiladau newydd, cwblhawyd gwaith i adnewyddu eiddo gwag yn:**

### Alexandra Road, Gorseinon

Cwblhawyd gwaith adnewyddu ar ddau gartref pâr â thair ystafell wely ym mis Mai 2023, mewn hen ganolfan seibiant Gwasanaethau Cymdeithasol ar Alexandra Road yng Ngorseinon.

Mae'r ddau gartref newydd wedi elwa o geginau


www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk

newydd, ystafelloedd ymolchi newydd, ffenestri uPVC ynni effeithlon, offer gwresogi a gerddi wedi'u tirlunio'n hyfryd, yn ogystal â sied yn yr ardd.





## Acacia Road, West Cross

Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu hen adeilad Gwasanaethau Cymdeithasol ar Acacia Road, West Cross ym mis Rhagfyr 2022. Mae dau gartref newydd â thair ystafell wely wedi'u creu, y mae un ohonynt yn eiddo wedi'i addasu'n llwyr.

## Ty Forest House

Roedd Tŷ Forest yn rhan o deras o eiddo cyngor yn Rhodfa'r Brain yn Ravenhill, ac fe'i newidiwyd yn 3 thŷ sy'n addas i deuluoedd ym mis Awst 2022.

## Tŷ Bryn a'r Podiau PassivHaus Preswyl, Uplands

Cwblhawyd gwaith ym mis Mawrth 2022 i ddatblygu hen Ganolfan Addysg yn y Gymuned Tŷ Bryn yn Uplands er mwyn helpu i fynd i'r afael â digartrefedd.

Mae'r adeilad bellach yn darparu pedwar fflat ag un ystafell wely. Hefyd, rydym wedi prynu pump pod PassivHaus, y cyntaf o'u math yn Abertawe. Mae'r podiau'n fflatiau hunangynhwysol un ystafell wely sy'n hynod ynni effeithlon, gyda galw isel iawn am ynni, gan helpu i gadw costau ynni yn isel. Adeiladwyd y podiau oddi ar y safle ac fe'u gosodwyd ar y safle, wedi'u hadeiladu eisoes, gan ddefnyddio craen er mwyn cyflymu'r broses adeiladu. Maent yn darparu llety dros dro ychwanegol mawr ei angen i aelwydydd digartref. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer y cynllun fel rhan o'i wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a digartrefedd.

# Caffaeliadau

Fel rhan o'r ymgyrch i gynyddu nifer y tai cymdeithasol yn Abertawe, mae gan y cyngor raglen gaffael i brynu hen dai cyngor, a chafodd eu gwerthu yn flaenorol dan yr hawl i brynu, yn ôl. Hyd yn hyn mae 125 eiddo wedi cael eu dychwelyd i stoc tai'r cyngor, sy'n ffordd effeithiol a chyflym o ychwanegu at stoc presennol y cyngor sy'n cynnwys 13,700 o gartrefi i'w rhentu, er mwyn helpu i leddfu pwysau ar gyfer tai mwy fforddiadwy i'w rhentu ar draws Abertawe.







# Eisiau symud cartref?

# Gall HomeSwapper eich helpu

**HomeSwapper yw gwasanaeth cyfnewid cartref mwyaf y DU ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol a gall cyfnewid eich cartref â thenant arall fod yn gyflymach nag aros am drosglwyddiad.**

Mae Cyngor Abertawe'n aelod o **HomeSwapper** a gall tenantiaid Cyngor Abertawe gofrestru ar gyfer y gwasanaeth a'i ddefnyddio am ddim.

Gallwch gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif **www.homeswapper.co.uk** neu gallwch ddefnyddio ap am ddim **HomeSwapper** ar eich ffôn neu'ch tabled - lawrlwythwch yr ap o siop apiau Apple neu Google Play i'ch ffôn neu'ch tabled.

Mae rhagor o gyngor ac erthyglau manwl am sut i wneud y mwyaf o **HomeSwapper** ar gael yn **www.homeswapper.me/homeswapper-blog/** neu cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal Leol. .



## Lleoedd Llesol Abertawe



**Mannau yn Abertawe yw Lleoedd Llesol Abertawe sy'n cynnig croeso cynnes i breswylwyr.**

Ni fydd angen i chi rhoi rheswm am eich ymweliad, dewch i fwynhau'r hyn sydd ar gael mewn lle diogel, cynnes a chroesawgar. Mae amrywiaeth eang o leoedd y gallwch ymweld â nhw sy'n cynnig cyfleusterau, gwasanaethau a gweithgareddau gwahanol.

Mae gan wefan y cyngor fap a rhestr o'r holl leoliadau yn Abertawe a'r hyn gallwch ei ddisgwyl pan fyddwch chi'n ymweld.

Cofiwch wirio'r hyn y mae eich archfarchnadoedd a'ch caffis lleol yn ei gynnig hefyd.

**www.abertawe.gov.uk/LleoeddLlesolAbertawe**


www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk

# Llais y Tenantiaid

**Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad.**

**Dyma fy niweddariad rheolaidd am gyfranogiad tenantiaid yn Abertawe, lle dwi'n rhoi newyddion i chi oddi wrth grwpiau lleol a grwpiau ar draws y ddinas.**



## Cyfarfodydd Tenantiaid yn Dychwelyd

Mae'r misoedd diwethaf wedi gweld cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn dychwelyd ac mae wedi bod yn bleser croesawu cymaint o wynebau cyfarwydd yn ôl. Mae'r Grŵp Adeiladau ac Atgyweiriadau a Phanel Ymgynghorol y Tenantiaid wedi bod yn trafod lleithder a llwydni ac yn benodol y mesurau diweddar y mae'r cyngor wedi'u rhoi ar waith i ymdrin â'r mater hwn. Cyfarfu Grŵp Adborth Tŷ Agored i drafod rhifyn diwethaf Tŷ Agored a rhoddwyd cyflwyniad i'r Cynrychiolwyr Byw'n Annibynnol ar ddementia. Rwy'n edrych ymlaen at weld pawb unwaith eto dros y misoedd nesaf ar gyfer y gyfres nesaf o gyfarfodydd. Os hoffai unrhyw un gael gwybodaeth am y grwpiau hyn, cysylltwch â mi.

## Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyfranogiad ac Ymgysylltu

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Cyfranogiad ac Ymgysylltu yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn yn manylu ar sut gall tenantiaid fod yn rhan ohonynt mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Bydd rhagor o wybodaeth am y strategaeth ar gael yn rhifyn nesaf Tŷ Agored.

## Porth 'Fy Nhai'

Bydd y porth 'Fy Nhai' newydd yn galluogi tenantiaid i greu cyfrif tai personol gan ddefnyddio ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur personol y gallwch ei ddefnyddio ar amser sy'n gyfleus i chi. Mae'n darparu mynediad hawdd er mwyn i chi weld balans eich rhent a'ch pryniadau, talu'ch rhent, cadw cofnod o unrhyw atgyweiriadau yr adroddwyd amdanynt, newid eich manylion personol ac anfon negeseuon atom neu adrodd am faterion rheoli tai.

## Facebook

Mae gan Dai Cyngor Abertawe ei grŵp Facebook ei hun, y gall unrhyw denant neu lesddeiliad y cyngor ymuno ag e'. Rydym yn postio gwybodaeth ddefnyddiol, yn eich cynghori ar ddiweddariadau a newidiadau i'r gwasanaethau tai ac wrth gwrs yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau yr hoffech eu cynnwys, cysylltwch â ni.

Os hoffech ymuno, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' ar Facebook, gwnewch gais i ymuno a gofynnir y cwestiynau canlynol i chi. Enw'r tenant arweiniol, 2. Cyfeiriad 3. Dewis iaith.

**Dim ond os atebwch chi'r cwestiynau hyn y caiff eich cais ei gymeradwyo.**

## Dweud eich dweud

Gallwch gyfranogi cymaint neu gyn lleied ag yr hoffech, hefyd, does dim rhaid i chi ddod i gyfarfodydd a gallwch fynegi'ch barn o gysur eich cartref. Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r grwpiau, y porth, neu'r grŵp Facebook, ffoniwch fi ar ☎ **01792 635043** neu ☎ **07775221453**, neu cysylltwch â fi drwy Messenger neu e-bostiwch fi yn ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**

# Newyddion Byw'n Annibynnol

## Dathlu coroni Brenin Siarl III

Cynhaliodd llawer o gyfadeiladau, gan gynnwys Gelli Gardens yng Ngellifedw, William Morris Gardens ym Mhort Tennant a Thŷ Dewi Sant bartïon i ddathlu coroni Brenin Siarl III. Roedd y dathliadau'n cynnwys te prynhawn, cwis, bingo a llawer o hwyl a gemau. Fel y gwelwch o'r lluniau isod, cafodd pawb amser da!









## Lolfeydd cymunedol

Mae cam 2 y gwaith o adnewyddu lolfeydd cymunedol fel rhan o'n Cynlluniau Byw'n Annibynnol bron wedi'i gwblhau.

Mae lolfeydd cymunedol Dan yr Allt yn Nhre-gŵyr, Midland Court yn St Thomas a William Morris Gardens ym Mhort Tennant wedi'u hailgynllunio gyda chelfi ac ategolion newydd yn eu lle.

Bydd cam 3 yn dechrau yn 2023 ac mae gennym gynllun 5 mlynedd i uwchraddio cynifer o'r lolfeydd â phosib yn yr amser hwnnw. Erbyn diwedd y flwyddyn hon byddwn wedi datblygu 12, felly rydym yn falch o'r cynnydd hyd yn hyn.

Bydd yr holl lolfeydd yn derbyn celfi ac ategolion o ansawdd uchel sy'n addas i'w defnyddio mewn cynlluniau byw ar gyfer pobl hŷn, gan roi'r gallu iddynt hwy a phreswylwyr y dyfodol gael defnydd amlswyddogaethol o'r ystafelloedd. Mae gweithgareddau grŵp, cinio, bwffe a boreau coffi, ardaloedd cymdeithasol, ystafelloedd clyd, cyfforddus gyda soffas a chadeiriau i gyd yn galluogi ein preswylwyr i wneud y defnydd gorau o'r lle a gwahodd ffrindiau a theulu i ymuno â nhw.

Mae wedi bod yn hyfryd cael adborth cadarnhaol gan breswylwyr ac ymwelwyr, gyda llawer yn dweud pa mor gartrefol, moethus a chain yw'r ystafelloedd nawr.


www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk





## Diwrnod difyr ym Maes Yr Efail

Bu Maes Yr Efail, Gorseinon a Dan Yr Allt, Tre-gŵyr yn llwyddiannus yn eu cynigion i Cadwch Gymru'n Daclus am offer i ddatblygu gardd gymunedol yn y cyfadeiladau. Derbyniodd y ddau gyfadeilad ddysglau plannu, delltwaith ac offer garddio yn ogystal â phecyn blodau gwyllt a phecyn planhigion bwytadwy.

Mae hyn wedi bod yn gyfle gwych i ddeiliad contract ymwneud â'r plannu a dysgu am wahanol blanhigion.

Mae wedi rhoi'r cyfle i ni annog deiliaid contract i ddechrau meddwl am arddio a sylweddoli manteision gwneud y safleoedd yn fwy deniadol eu hunain.

Derbyniodd Dan Yr Allt fasgedi crog a dau flwch nythu sy'n cynnwys nythaid o adar ifanc eleni.

Derbyniodd Maes Yr Efail flychau pryfed a blychau adar.

Meddai Lizzie Langshaw, Swyddog Byw'n Annibynnol yn Nhan Yr Allt,

*"Roedd hi'n hyfryd gweld y tenantiaid yn cymryd rhan ac yn mwynhau eu hunain. Mae'n bendant wedi ennyn diddordeb y sawl a fu'n cymryd rhan i wneud mwy o arddio ar y safle, sy'n wych."*

## Heol y Gors

Llongyfarchiadau i denantiaid Heol y Gors sydd wedi bod yn brysur yn plannu a thyfu dros y flwyddyn ddiwethaf gyda'r offer y maent wedi'i dderbyn gan y Grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Da iawn chi, daliwch ati gyda'r gwaith da.



## Christine Bale, Conway Court

Bu dathliadau dwbl i'r Swyddog Byw'n Annibynnol (SBA), Christine Bale o Conway Court, sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ar ôl gweithio yn y cyfadeilad am 37 mlynedd.  Hi yw'r unig SBA yn Conway Court ac mae wedi gweithio mewn cyfadeiladau eraill hefyd. Mae staff a thenantiaid yn dwlu ar Christine ac yn ei pharchu'n fawr ac mae pawb yn anfon eu cariad a'u dymuniadau gorau ar gyfer y dyfodol - bydd colled fawr ar dy ôl.

Dathlodd Christine hefyd ben-blwydd pwysig yn ddiweddar a dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddi!



# Atgoffa am Atgyweiriadau

**Wyddech chi y gallwch adrodd am atgyweiriad, olrhain eich atgyweiriadau a gweld atgyweiriadau blaenorol ar ein porth Tai - Cofrestrwch/mewngofnodwch yma - tai.abertawe.gov.uk**

**Mae'n hawdd adrodd am atgyweiriadau ar-lein ar unrhyw adeg ac yn unrhyw le - ewch i: www.abertawe.gov.uk/caisamwellacartref**

Gallwch adrodd am atgyweiriad ar-lein, mae'r wefan yn addas i ffonau symudol ac yn berffaith os ydych yn mynd o le i le gan y gallwch ei ddefnyddio ar adeg ac mewn man sy'n gyfleus i chi.

Os na allwch fynd ar-lein, gallwch hefyd ffonio'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau Tai ar:

**☎ 01792 635100**

Mae'r ganolfan ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau, 8.30am - 5.00pm, a 8.30am - 4.30pm ar ddydd Gwener

## Atgyweiriadau brys

Atgyweiriad brys yw unrhyw broblem a allai beri anaf difrifol i chi neu unrhyw un yn eich cartref.

Gellir adrodd am y rhain dros y ffôn ar y rhif uchod yn unig. Ar gyfer gwasanaeth y tu allan i oriau (dydd Llun i ddydd Iau, 5.00pm - 8.30am ac o 4.30pm ar ddydd Gwener i 8.30am ar ddydd Llun) ffoniwch

**☎ 01792 521500**

Os oes gennych ymholiad ynghylch pa atgyweiriadau y byddwn yn eu gwneud, mae angen diweddariad arnoch am atgyweiriad rydych eisoes wedi adrodd amdano neu mae angen cyngor cyffredinol arnoch ar atgyweiriadau, e-bostiwch ✉ CanolfanAlwadau.AtgyweiriadauTai@abertawe.gov.uk neu ffoniwch y rhif uchod.

# Cadw anifeiliaid anwes



**Rydym yn deall y gall cadw anifeiliaid anwes fod yn bwysig i denantiaid. Maent yn cadw cwmni i chi a gallant leihau straen, gwella iechyd y galon, a hyd yn oed helpu plant gyda'u sgiliau emosiynol a chymdeithasol.**

Os ydych yn meddwl am gael anifail anwes, mae'n rhaid i chi ysgrifennu at eich Swyddfa Dai Ardal a gofyn am ganiatâd yn gyntaf. Ni fyddwn yn gwrthod eich cais os yw'n rhesymol ac os yw eich cartref yn addas. Fodd bynnag, os nad yw eich eiddo'n addas ar gyfer anifail anwes, mae'n bosib y caiff eich cais ei wrthod.

Os oes gennych anifail anwes yn eich eiddo eisoes ac nid ydych wedi hysbysu eich Swyddfa Dai Ardal, bydd angen i chi ysgrifennu a gofyn am ganiatâd ôl-weithredol. Os nad ydym wedi rhoi caniatâd, gellid cymryd camau pellach am dorri contract.

Nid ydym yn caniatáu anifeiliaid anwes mewn blociau fflatiau uchel, fodd bynnag, gellir cadw rhai anifeiliaid anwes mewn fflatiau cyn belled â'ch bod wedi cael caniatâd gan y Swyddfa Dai Ardal.

Ni ddylai anifeiliaid anwes achosi annifyrrwch i'ch cymdogion neu breswylwyr eraill.

Rhaid i chi hefyd beidio â chadw ceffylau, merlod etc. o fewn ffin eich cartref neu ar dir y cyngor.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am gadw anifeiliaid anwes, cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal.

## Fy Nhai - Eich Ateb Ar-lein

### Ar gael 24/7 ac yn barod pan fyddwch hi'n barod.

**Rheoli'ch tŷ cyngor - Mae'n hawsach nag erioed.**

Mae'r porth ar-lein yn darparu mynediad cyflym a hawdd at yr holl wybodaeth am eich cartref.

- Talu'ch rhent
- Gweld eich cyfrif rhent
- Lawrlwytho ac argraffu'ch cyfriflenni rhent
- Adrodd am atgyweiriadau sy'n weddill a chadw golwg arnyn nhw
- Gweld eich manylion a'u diweddaru pan fydd angen
- Rhoi gwybod am unrhyw broblemau rheoli'ch cartref
- Cysylltu â ni




Cofrestrwch / mwngofnodwch yma: **tai.abertawe.gov.uk**

Cyngor Abertawe Swansea Council

# Gwasanaethau cefnogi

| | |
|---|---|
| **Hawliad Budd-dal Tai** | I gyflwyno cais newydd am Fudd-dal Tai, ffoniwch y **Tîm Hawlio ar ☎ 635353** neu e-bostiwch ✉ **caisnewyddamfudd-daliadau@abertawe.gov.uk**<br>Er mwyn trafod eich hawliad â Swyddog Budd-dal Tai, ffoniwch ☎ **635353** neu e-bostiwch ✉ **budd-daliadau@abertawe.gov.uk** |
| **Tîm Rhenti** | Os ydych chi'n cael anhawster wrth dalu'ch rhent, cysylltwch â'r **Tîm Rhenti** drwy ffonio ☎ **01792 534064** neu **07920 560243** ✉ **rhenti@abertawe.gov.uk** |
| **UCT - Uned Cefnogi Tenantiaid** | Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r **UCT**, a all gynnig gweithiwr cefnogi i helpu gyda phroblemau ariannol neu unrhyw faterion cefnogi eraill gyda'ch tenantiaeth.<br>Ffoniwch eich Swyddog Rhent neu'r **Uned Cefnogi Tenantiaid** ar ☎ **774360** os teimlwch fod angen cefnogaeth arnoch |
| **Opsiynau Tai** | Cyngor ar arian a dyledion - hefyd, rhoddir cyngor am ddim os yw'ch tenantiaeth mewn perygl.<br>☎ **01792 533100** ✉ **opsiynautai@abertawe.gov.uk** |
| cyngor ar bopeth | **Cyngor ar Bopeth Abertawe**<br>Ail Lawr, City Gates, 50a Wind Street, Abertawe SA1 1EE<br>☎ **0300 3309 082** 🖱 **www.adviceguide.org.uk/wales.htm** |
| Shelter | Os ydych wedi'ch bygwth â digartrefedd, cynigir cyngor a chymorth i chi am ddim ☎ **01792 469400**<br>Llinell Gymorth Cyngor ar Dai ☎ **08000 495 495**<br>🖱 **www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy** |
| StepChange Debt Charity | Cyngor ar ddyledion gan Stepchange ☎ **0800 138 1111**<br>🖱 **www.stepchange.org** |
| Workways+ Gweithffyrdd | I gael cyngor ar sut i gael gwaith<br>☎ **01792 637112** 🖱 **www.workways.wales**<br>✉ **workways+@swansea.gov.uk** |

# Sgamiau

**Mae nifer o sgamiau ar hyd y lle ar hyn o bryd sy'n ceisio cael gwybodaeth bersonol gennych chi, gan alluogi sgamwyr i gael mynediad i'ch cyfrifon banc.**

## Taliadau cymorth costau byw

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi rhybudd yn dilyn adroddiadau am alwadau ffôn, e-byst a negeseuon testun sgam. Gofynnir i'r person sy'n derbyn yr alwad/neges i hawlio neu wneud cais am Daliad Costau Byw drwy gofrestru drwy ddolen. Mae'r dolenni yn yr e-byst a'r negeseuon testun yn arwain at wefannau sy'n edrych fel rhai go iawn sydd wedi'u cynllunio i ddwyn gwybodaeth bersonol ac ariannol.

Mae'n bwysig cofio, os ydych yn gymwys i gael cymorth costau byw, nid oes angen i chi wneud cais am y taliad na chysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau yn uniongyrchol. Byddwch yn cael eich talu'n awtomatig ac ni fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau byth yn gofyn i chi am fanylion personol drwy neges destun neu e-bost.

**PEIDIWCH** â chlicio ar unrhyw ddolenni sy'n cael eu hanfon atoch drwy neges destun neu e-bost.

**PEIDIWCH** byth â rhoi eich manylion banc i ffynhonnell annibynadwy. Ni fyddai cyrff swyddogol fel yr Adran Gwaith a Phensiynau byth yn gofyn am yr wybodaeth hon gennych drwy neges destun.

## Sgamiau negeseuon testun a WhatsApp

Mae cynnydd yn nifer y sgamwyr sy'n defnyddio negeseuon testun i gysylltu â phobl. Er enghraifft, rydych yn derbyn neges destun gan aelod o'r teulu sy'n honni ei fod wedi colli ei ffôn a bod angen arian gennych. Gall y negeseuon hyn ymddangos yn argyhoeddiadol iawn ac os byddwch yn ymateb iddynt, bydd y sgamiwr yn sgwrsio â chi. Byddwch yn wyliadwrus wrth dderbyn y math hwn o neges! Peidiwch byth ag anfon arian at **UNRHYW UN** sy'n cysylltu â chi'n annisgwyl. Gwiriwch yn gyntaf!



## Adnabod sgam

Gallai fod yn sgam:

- os yw'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir - er enghraifft, gwyliau sy'n llawer rhatach na'r disgwyl.
- os yw rhywun nad ydych yn ei adnabod yn cysylltu â chi'n annisgwyl.
- os rydych yn amau nad ydych yn delio â chwmni go iawn – er enghraifft, os nad oes cyfeiriad post.
- os gofynnwyd i chi drosglwyddo arian yn gyflym.
- os gofynnwyd i chi roi gwybodaeth bersonol fel cyfrineiriau neu rifau PIN.
- os nad ydych wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o'r hyn y cytunwyd arno.

Peidiwch â lawrlwytho na chlicio ar unrhyw beth nad ydych yn ymddiried ynddo - er enghraifft, os ydych yn derbyn e-bost gan gwmni sy'n cynnwys cyfeiriad e-bost rhyfedd. Gall gwneud hyn achosi feirws ar eich cyfrifiadur. Sicrhewch fod eich meddalwedd gwrthfeirysau yn gyfredol er mwyn rhoi mwy o ddiogelwch i chi. **Peidiwch â rhoi eich gwybodaeth bersonol i unrhyw un!**

Os ydych yn credu eich bod wedi dioddef sgam, dylech adrodd am hyn wrth Action Fraud ar-lein yn **www.actionfraud.police.uk/report_fraud** neu ffonio ☎ **0300 123 2040**. Gallwch hefyd adrodd amdano wrth Safonau Masnach drwy wefan y cyngor **www.abertawe.gov.uk/adroddamdwyllodrus**

# Anwedd, llwydni a lleithder yn eich cartref

**Rydyn ni'n cael llawer o adroddiadau am anwedd, llwydni a lleithder - gall pob un fod yn ddifrifol, ond mae'r ffordd o ddelio â nhw yn wahanol.**

Mae anwedd yn cael ei achosi gan ormod o leithder yn yr aer a gall arwain at lwydni. Mae lleithder, nad yw'n anwedd, fel arfer yn cael ei achosi gan broblem adeileddol neu atgyweirio, e.e. mae'r cwrs atal lleithder wedi methu neu mae pibell yn gorlifo.

## Beth yw anwedd?

Mae lleithder yn yr aer drwy'r amser, hyd yn oed os nad ydych yn gallu'i weld. Fe'i cynhyrchir o fywyd arferol o ddydd i ddydd. Ceir lleithder pan fo aer llaith, cynnes yn cyrraedd arwynebau oer, sy'n peri i'r aer gyddwyso a ffurfio diferion o ddŵr - er enghraifft pan fydd anwedd yn ffurfio ar eich ffenestri.

Mae deffro a gweld anwedd ar ffenestri'n rhywbeth cyffredin i'r rhan fwyaf o bobl, yn enwedig yn y gaeaf. Nid yw fel arfer yn broblem a bydd yr anwedd yn diflannu wrth i chi agor y ffenestri am gyfnod byr er mwyn caniatáu awyru naturiol. Fodd bynnag, os bydd anwedd yn digwydd dros gyfnod hir ac nid yw'n clirio oherwydd diffyg awyru, bydd symptomau eraill yn ymddangos megis darnau llaith ar waliau, papur wal sy'n pilio ac yn y pen draw tyfiant o lwydni du. Yn ychwanegol, mae gan y rhan fwyaf o gartrefi ffenestri gwydr dwbl gyda seliau atal drafftiau ar ddrysau a ffenestri a all hefyd atal aer llaith rhag dianc.

## Sut ydych chi'n gwybod a oes gennych anwedd?

Os oes anwedd yn eich cartref, byddwch yn dechrau gweld arwyddion ohono'n gyflym iawn sy'n cynnwys:

- Ffenestri ffrydiog (h.y. diferion o ddŵr arnynt).
- Mannau llaith ar waliau.
- Papur wal sy'n pilio.



- Arwydd o lwydni.
- Aroglau llwydni ar ddillad mewn cypyrddau dillad.

Os gadewir anwedd i ddatblygu'n llwydni gall arwain at eiddo diolwg, drewllyd. Gall hefyd sbarduno problemau iechyd megis asthma a chwynion eraill neu eu gwneud yn waeth.

## Lleihau anwedd

Mae'n bosib lleihau'r anwedd yn eich cartref drwy gynhyrchu llai o ddŵr a thrwy adael i aer llaith ddianc o'ch cartref. Dyma rai awgrymiadau defnyddiol:

**Cyffredinol**

- Agorwch ffenestri yn y bore am 20 munud i adael awyr iach i mewn i'ch cartref.
- Gadewch wyntyllau awyru ffenestri ar agor drwy'r flwyddyn.
- Peidiwch â rhwystro gwyntyllau awyru a thyllau waliau.


www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk

## Ydych chi'n gwybod faint o leithder y mae gweithgareddau bob dydd yn ei gynhyrchu?

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y lleithder a gynhyrchir yn eich cartref mewn un diwrnod** | **28 Peint** |
| Sychu dillad | 9 Peint |
| Coginio a berwi tegell | 6 Pheint |
| Un anifail canolig ei faint | 4 Peint |
| Dau berson sy'n actif am ddiwrnod | 3 Pheint |
| Defnyddio gwresogydd paraffin neu nwy potel | 3 Pheint |
| Cael bath neu gawod | 2 Beint |
| Golchi dillad | 1 Peint |

- Sychwch yr holl arwynebau a ffenestri lle ceir anwedd bob bore - **eich cyfrifoldeb chi yw hyn**.
- Ceisiwch adael y gwres ymlaen yn isel am sawl awr y dydd pan fydd hi'n oer - os yw'ch cartref yn gynnes, mae'n llai tebygol y byddwch yn gweld unrhyw anwedd.
- Cadwch ddrysau mewnol ar agor fymryn i ganiatáu i aer a gwres gylchredeg (oni bai eich bod yn coginio neu'n cael bath/cawod).
- Os oes gennych system Awyru Mewnbwn Positif (PIV neu Drimaster), gadewch ef ymlaen bob amser, a chadwch ffenestri a drysau ar gau.
- Bydd system PIV yn lleihau lleithder aer, (gwlybaniaeth) yn eich cartref. Mae cartrefi sy'n cynnwys lefelau uchel o wlybaniaeth yn ddrytach i'w gwresogi. Gall PIVau leihau biliau ynni.
- Mae rhai gwyntyllau echdynnu wedi'u dylunio i'w gadael ymlaen drwy'r amser. Byddant yn dod ymlaen ac yn diffodd yn awtomatig wrth i wlybaniaeth (lleithder yn yr aer) gynyddu. Peidiwch â'u diffodd wrth y wal.
- Mae'r rhan fwyaf o wyntyllau echdynnu a osodir gan y cyngor yn costio tua £5 y flwyddyn i'w rhedeg.
- Gadewch fwlch rhwng y celfi a'r waliau i helpu cylchrediad aer.
- Cadwch gaeadau ar danciau pysgod.
- Peidiwch â defnyddio gwresogyddion nwy mewn poteli (Calor etc.)
- Sicrhewch fod eich cartref wedi'i inswleiddio - mae'r cyngor yn cynnig inswleiddio'r llofft am ddim i'w denantiaid.

**Wrth goginio**

- Coginiwch gyda chaeadau padell bob amser a throwch y gwres i lawr unwaith y bydd y dŵr wedi berwi.
- Agorwch ffenestri'r gegin rywfaint a chaewch y drysau a throwch eich gwyntyll echdynnu ymlaen os yw'n un sy'n cael ei gweithredu â llaw. Caniatewch i'r wyntyll redeg am oddeutu 15 munud ar ôl i chi orffen coginio.
- Bydd gwyntyllau echdynnu sydd wedi'u dylunio i aros ymlaen bob amser yn cael gwared ar leithder gormodol yn yr aer yn awtomatig.
- Peidiwch â defnyddio'ch ffwrn nwy i wresogi'ch cegin.

**Wrth ymolchi**

- Wrth lenwi'r baddon, rhedwch y dŵr oer yn gyntaf ac yna ychwanegwch y dŵr poeth - bydd yn lleihau'r stêm sy'n arwain at anwedd hyd at 90%.
- Defnyddiwch y ffan echdynnu bob amser wrth gael bath neu gawod a gadewch iddi redeg nes bod yr anwedd wedi clirio.

- cadwch ddrws yr ystafell ymolchi ar gau i atal lleithder rhag dianc
- sychwch bob arwyneb oer a llaith gyda lliain sych

**Golchi a sychu dillad**

- Peidiwch byth â sychu dillad ar reiddiaduron - defnyddiwch hors ddillad
- Sychwch ddillad yn yr awyr agored os yn bosib, neu eu rhoi yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor neu rhowch ffan echdynnu ymlaen
- Sicrhewch fod gan eich sychwr dillad dwll awyr i'r tu allan (gallwch brynu citiau DIY ar gyfer hyn) oni bai ei fod yn fath hunan-anweddu.

**Trin llwydni**

Os ydych yn sylwi ar lwydni'n tyfu yn eich cartref, dylech ei drin ar unwaith er mwyn ei atal rhag lledaenu ac achosi mwy o ddifrod i'ch cartref.

- **PEIDIWCH** â defnyddio cannydd i drin llwydni
- Ewch ati i sterileiddio'r man yr effeithir arno gyda golchiad ffyngladdol (ar gael o'r rhan fwyaf o siopau DIY). Sicrhewch eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- Gwiriwch y man yr effeithir arno am wythnos ac os oes angen, dylech drin y man eto
- Bydd defnyddio paent gwrthlwydni yn helpu i atal y llwydni rhag dychwelyd.

## Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n dweud wrthym am anwedd, llwydni a lleithder?

Byddwn yn trefnu i arolygydd atgyweiriadau ymweld â'ch cartref i ymchwilio i'r hyn a allai fod yn achosi'r problemau.

Bydd yr arolygydd yn edrych i weld ai un o achosion cyffredin anwedd, llwydni a lleithder sy'n achosi'r problemau fel:

- dŵr yn treiddio drwy'r waliau allanol a'r to
- lleithder codi - lleithder o'r ddaear yn codi i fyny i waliau'r adeilad
- deunydd inswleiddio waliau ceudod anaddas
- pibellau dŵr mewnol yn gollwng

Bydd hefyd yn edrych ar lefelau'r lleithder/anwedd dŵr a gynhyrchir y tu mewn i'r tŷ gan y gall lefelau uchel achosi anwedd a all arwain at lwydni.


**Gan ddibynnu ar beth yw canlyniad yr archwiliad, gall atgyweiriadau a thriniaethau gynnwys:**

- Atgyweiriadau i waliau/do'r adeilad i gael gwared ar leithder codi neu sy'n treiddio iddynt.
- Cynyddu'r deunydd inswleiddio.
- Gosod gwyntyllau echdynnu ar waliau a system mewnbwn positif (PIV) e.e. Drimaster ar gyfer awyriad trwy eich cartref drwyddi draw.
- Trin effeithiau llwydni du a achosir gan anwedd gyda thoddiant atal llwydni.
- Byddwn hefyd yn rhoi cyngor i chi ar sut i leihau anwedd a llwydni a sut i'w hatal rhag digwydd eto.

**Systemau Awyru Mewnbwn Positif (PIV)**

Rydym yn aml yn gosod systemau PIV i helpu gyda'r awyru yn eich cartref os ydych chi'n cael problemau gydag anwedd. Gelwir y rhain hefyd yn 'Drimasters'.

- Maent fel arfer yn cael eu gosod yn atig eich cartref (neu ar y tu allan os nad oes gennych atig) a bydd awyrellau'n cael eu gosod yn eich nenfwd.
- Mae angen i chi ei adael ymlaen bob amser, cadw'ch ffenestri a'ch drysau ar gau ond gadael yr awyrellau diferu ar eich ffenestri ar agor. Bydd y rhan fwyaf o fodelau yn troi eu hunain ymlaen pan fo angen ac yn diffodd eu hunain yn awtomatig.
- Byddant yn lleihau gwlybaniaeth yn yr awyr gan dynnu aer glân, ffres o bwyntiau gollyngiadau naturiol yr atig, trwy'ch cartref a gwthio'r aer llaith allan drwy'r awyrellau diferu.
- Maent yn helpu i leihau anwedd, llwydni a lleithder a hefyd yn helpu i wella ansawdd aer mewnol.





www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk

**Os ydych chi'n cael problemau gydag anwedd a llwydni yn eich cartref, cysylltwch â'r Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau Tai ar ☎ 01792 635100**
**www.abertawe.gov.uk/caisamwellacartref**
**www.abertawe.gov.uk/problemauanweddtenantiaid**

**Ap Fy Nhai Cofrestru/mewngofnodi:**
**tai.abertawe.gov.uk**

**Am gymorth a chyngor gyda'ch biliau a chostau byw:**
**www.abertawe.gov.uk/helpcostaubyw**



# Diogelwch Nwy

## Beth i'w wneud os ydych yn arogli nwy

- Diffoddwch y cyflenwad nwy wrth y falf rheoli brys (a elwir hefyd yn falf diffodd nwy) wrth y mesurydd oni bai fod y mesurydd mewn islawr neu seler neu wrth y tanc LPG neu mewn tanc storio.
- Agorwch yr holl ddrysau a ffenestri i gael gwared ar y nwy i awyru'r eiddo. Os yw'n ddiogel gwneud hynny Os na, gadewch yr eiddo os oes angen
- Diffoddwch bob fflam a pheidiwch â smygu.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw switshis trydanol (gan gynnwys troi goleuadau ymlaen neu eu diffodd) oherwydd gall hyn danio unrhyw nwy sy'n dianc.
- Ffoniwch y Gwasanaeth Argyfwng Nwy Cenedlaethol ar 0800 111 999. Bydd y rhif ffôn hwn ar eich mesurydd nwy, a gallwch ei ffonio am ddim. Peidiwch â defnyddio'r ffôn y tu mewn i'r eiddo.

## Yr hyn y gallwch chi ei wneud

- Wrth brynu'ch teclyn nwy eich hun, er enghraifft popty, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i farcio â nod barcud Safon Brydeinig.
- **RHAID** i boptai nwy gael eu gosod gan Beiriannydd Diogelwch Nwy cofrestredig. Gallwch wirio cofrestriad eich peiriannydd ar y Gofrestr Diogelwch Nwy a bydd pob peiriannydd yn cario dull adnabod.
- Prynwch eich nwyddau nwy gan adwerthwr ag enw da yn unig.
- Bydd angen i unrhyw waith nwy neu wresogi arall a wneir yn eich eiddo gael ei gymeradwyo gan eich Swyddfa Dai Ardal..

## Pwy sy'n gallu helpu

- Rhaid i chi wirio a gwasanaethu eich offer nwy yn rheolaidd.
- Mae'n rhaid i'r cyngor, yn ôl y gyfraith, gynnal gwiriad diogelwch nwy rheolaidd ar yr holl eitemau nwy unwaith y flwyddyn - **mae hwn am ddim**.

  Mae'n rhaid i ni gael mynediad i'ch cartref i gynnal y gwiriad hwn.

  Byddwn yn gwasanaethu ac yn atgyweirio'r holl eitemau rydym wedi'u gosod.

  Cofiwch mai er eich diogelwch chi yw hyn.
- Yn ystod y gwiriad byddwn yn gwasanaethu'r offer neu'r cyfarpar nwy.
- Bydd poptai nwy yn destun gwiriad diogelwch gweledol.
- Byddwn hefyd angen mynediad i'ch mesurydd nwy ac yn aml cynhelir archwiliadau o'r ffliw yn yr atig.
- Os nad ydych adref pan fydd y peiriannydd yn galw heibio, bydd cerdyn yn cael ei adael gyda rhif cyswllt swyddfa'r adran nwy. Rhif ffôn: ☎ **01792 511011**.

# Gweithio gyda'n gilydd i'ch cadw'n ddiogel - ymarfer hyfforddi'r Gwasanaeth Tân

## Mae'r Gwasanaeth Tân a'r Gwasanaeth Tai yn cydweithio'n agos i sicrhau bod ein hadeiladau a'r gymuned yn ddiogel.

Un ffordd rydym yn gwneud hyn yw drwy ganiatáu i'r gwasanaeth tân gynnal ymarferion hyfforddi yn ein heiddo.


Yn gynharach eleni, defnyddiodd y Gwasanaeth Tân ein blociau fflatiau uchel wrth iddynt gynnal ymarferion hyfforddi ar dechnegau ymladd tân mewn fflatiau uchel.

Fel rhan o'r ymarfer, mae dymi yn cael ei osod mewn fflat a defnyddir peiriant mwg i lenwi'r fflat â mwg. Mae golau tân yn cael ei osod mewn ffenestr fel cliw gweledol o dân. Mae criwiau'n cael eu hyfforddi i chwilio am y dymis yn y fflat a defnyddir gosodiadau gwahanol fel bod cynifer o aelodau'r criw â phosib yn gallu cael profiad o chwilio mewn fflat.

Mae'r gwasanaeth tân a'r gwasanaeth tai yn ystyried yr ymarferion hyn yn ddefnyddiol iawn wrth helpu i ymarfer a chynnal sgiliau a gweithdrefnau. Rydym hefyd yn dysgu pethau newydd a allai helpu'r gwasanaeth tân mewn sefyllfa go iawn i fynd i'r afael â thân mor gyflym â phosib.



# EICH GWASTRAFF EICH CYFRIFOLDEB



Tipio anghyfreithlon yw cael gwared â gwastraff mewn modd anghyfreithlon a gall gynnwys unrhyw beth o sachau du i celfi, matresi, rwbel adeiladu a mwy.

Os cewch eich dal yn tipio'n anghyfreithlon gallech gael Hysbysiad Cosb Benodedig o hyd at £400, gydag achosion mwy difrifol yn arwain at ddirwyon fwy neu hyd yn oed carchariad!

Gallwch hefyd gael Hysbysiad Cosb Benodedig o £300 os ydych chi'n rhoi eich sbwriel i rywun sydd wedyn yn cael gwared â'r deunyddiau mewn modd anghyfreithlon.

**Oes angen i chi gael gwared â gwastraff dros ben neu wastraff swmpus? Peidiwch â phoeni, mae digon o ddewisiadau ar gael i chi:**

- ✓ Mae Cyngor Abertawe'n cynnig gwasanaeth casgliadau gwastraff swmpus ar gyfer eitemau mawr fel celfi a chyfarpar trydanol. Gallwch drefnu casgliad ar-lein am ffi fach yn **www.abertawe.gov.uk/gwastraffswmpus**
- ✓ Yn yr un modd, gallwch drefnu i gontractwr gwastraff trwyddedig gael gwared â'ch gwastraff, a'i dalu am wneud hyn, ond cofiwch wirio'i fod wedi'i gofrestru yn **www.naturalresources.wales/checkwaste**
- ✓ Os yw'r eitemau y mae angen i chi gael gwared â nhw mewn cyflwr da o hyd, beth am eu gwerthu neu eu cynnig i bobl eraill eu casglu am ddim ar lwyfan neu ap ar-lein?
- ✓ Os oes gennych gar, gallwch fynd â gwastraff dros ben ac eitemau mawr i ganolfan ailgylchu, yn rhad ac am ddim. Gallwch weld rhestr lawn o'r lleoliadau a'r eitemau sy'n cael eu derbyn ym mhob lleoliad yn **www.abertawe.gov.uk/canolfannauailgylchu**

@ailgylchutawe
Ailgylchu Abertawe

Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles

Cyngor **Abertawe** **Swansea** Council

# Ailgylchu Celfi

## Cyn i chi fynd allan i brynu celfi a nwyddau gwyn newydd, efallai byddai'n werth ystyried rhai o'r opsiynau eraill sydd ar gael.

Mae ailgylchu neu ailddefnyddio eitemau lle bo'n bosib bellach yn ddewis mwy cyfrifol i bobl. Mae ailgylchu'n lleihau'r hyn sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, mae'n lleihau gwastraff ac mae'n ddewis fwy amgylcheddol gynaliadwy o'i gymharu â phrynu eitemau newydd. Hefyd, mae dewis ailddefnyddio celfi a nwyddau gwyn yn opsiwn cost is o'i gymharu â phrynu eitemau newydd. Os ydych chi ar incwm isel, neu os ydych chi'n cael trafferth wrth brynu celfi a nwyddau gwyn ar gyfer eich cartref, mae digon o leoedd yn Abertawe sy'n cynnig amrywiaeth eang o eitemau. Dyma rai lleoedd i roi cynnig arnynt:

**Siopau elusen Barnardo's:** Gallwch ddod o hyd i nwyddau i'r cartref, dillad ail-law a mwy yma. Gallwch hefyd roi nwyddau a gwirfoddoli.
**www.barnardos.org.uk/shops/our-shops**

**Sefydliad Prydeinig y Galon:** Amrywiaeth gwych o gelfi ail law o safon, nwyddau trydanol a nwyddau cartref, o soffas, bordydd a chypyrddau dillad i setiau teledu ac offer cartref. **www.bhf.org.uk/what-we-do/find-bhf-near-you/swansea2-furniture-electrical-store**

Y siop agosaf yw -
Uned 8, Parc Manwerthu Dewi Sant, Llansamlet
Abertawe SA6 8QL

**Y Groes Goch Brydeinig:** Celfi a nwyddau trydanol ail-law. **www/redcross.org/shop/find-a-charity-shop/swansea-furniture-and-electrical**

Y siop agosaf yw -
228 Stryd Rhydychen, Abertawe SA1 3BJ

**Archfarchnad Ymchwil Canser Abertawe:** Dillad, ategolion, llyfrau, DVDs a CDs, nwyddau cartref, celfi ac offer trydanol bach. **www.cancerresearchuk.org/get-involved/find-a-shop/swansea-superstore**

Y siop agosaf yw -
Uned 3, Parc Manwerthu Pontarddulais
Abertawe SA5 4BA

**Enfys:** Prynu celfi sydd wedi'u hadfer. Gallwch hefyd roi celfi ac eitemau eraill.
**www.enfys.org/**

**Siopau elusen Ambiwlans Awyr Cymru:** Prynu neu roi celfi, nwyddau cartref, dillad a llawer mwy.
**www.walesairambulance.com/pages/category/our-shops**

**Trysorau'r Tip:** Siop 'ailddefnyddio' sy'n gwerthu amrywiaeth o eitemau sydd wedi cael eu rhoi i ganolfannau ailgylchu neu sydd wedi cael eu rhoi gan breswylwyr Abertawe yr ystyrir eu bod yn rhy dda i fynd at safle tirlenwi. Gallwch brynu a rhoi'r eitemau canlynol: nwyddau trydanol, celfi, dillad, nwyddau cartref. Gellir dod o hyd i Drysorau'r Tip yn:

Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Llansamlet, Safle Byrnu Cyngor Abertawe (Safle Masnachol) 6, Parc Menter Abertawe, Ferryboat Close, Llansamlet, Abertawe SA6 8QN

Gellir cael rhagor o wybodaeth yma:
**www.abertawe.gov.uk/trysoraurtip**






Siop Ailddefnyddio
Trysorau'r Tip
Tip Treasures
Reuse Shop
www.abertawe.gov.uk/trysoraurtip
www.swansea.gov.uk/tiptreasures
PRYNWCH | BUY
AILDDEFNYDDIWCH | REUSE
ATGYWEIRIWCH | REPAIR
RHOWCH | DONATE
Canolfan Ailgylchu LLANSAMLET Recycling Centre
@ailgylchutawe
Ailgylchu dros Abertawe
@recycle4swansea
Swansea Recycles
Cyngor Abertawe
Swansea Council


PEIDIWCH Â CHAEL DIRWY!
Ni ddylai deunydd
AILGYLCHU
fod mewn sach ddu
Cyngor Abertawe
Swansea Council
DON'T GET A FINE!
RECYCLING
doesn't belong in
black bags
@ailgylchutawe
@Recycle4Swansea
Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles
Ailgylchu Abertawe
Swansea Recycles

# Cynllun Arian yn Ôl am Gewynnau golchadwy

Newidiwch i gewynnau golchadwy heddiw a bydd Cyngor Abertawe'n rhoi **£100** i chi tuag at y gost!

Hyd at £100!

## Pam Newid?

**Lleihau Gwastraff!** Yn yr amser y mae'n ei gymryd i hyfforddi plentyn i ddefnyddio'r poti bydd plentyn yn defnyddio oddeutu **5,000** o gewynnau tafladwy. Dyna **156** o sachau du yn mynd i safleoedd tirlenwi.

**Gallwch Arbed Arian!** Gallwch arbed hyd at **£500** y flwyddyn ar gewynnau tafladwy.

**Dim Mwy o Frech Cewyn!** Mae cewynnau golchadwy wedi'u gwneud o ffibrau naturiol felly ni fyddant yn peri cosi poenus i groen y babi.

**Hawdd eu Defnyddio a'u Golchi!** Mae felcro a stỳds gwasgu yn golygu nad oes angen pinnau ac mae modd golchi'r cewynnau yn y peiriant golchi.

**Hwyl a ffasiynol!** Maent yn dod mewn amrywiaeth o ddyluniadau a defnyddiau gwahanol.



## Gwnewch gais heddiw!

Mae'r cynllun ar gael i holl breswylwyr Dinas a Sir Abertawe. Am restr lawn o'r amodau a thelerau ac i gyflwyno cais am y cynllun, ewch i **www.abertawe.gov.uk/cewynnau**

@ailgylchutawe

Ailgylchu dros Abertawe

Abertawe yn ailgylchu
Swansea recycles

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

## Oes angen rhagor o sachau gwyrdd a leinwyr bwyd arnoch?

Gallwch ofyn i'r criwiau am y sachau hyn ar y diwrnod casglu drwy roi'r tag ailarchebu ar eich sachau gwyrdd neu fin gwastraff bwyd ar ymyl y ffordd.

Dyma'r ffordd fwyaf cyfleus a llesol i'r amgylchedd o gael sachau gwyrdd a leinwyr gwastraff bwyd.

Ydych chi'n cael trafferth cael sachau yn y ffordd yma?
E-bostiwch ✉ **Ailgylchu.UCC@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch ☎ **01792 635600** fel y gallwn gallwn ymchwilio i'r broblem.

# Mynd yn Ddigidol

**Mae'r cyngor ywedi ymrwymo i weithio tuag at leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a chyflawni Sero Net erbyn 2030. Mae gan bawb rôl i'w chwarae yn hyn ac fel rhan o'n nod, rydym yn cymryd camau i leihau ein hôl troed carbon lle bynnag y bo modd. Un ffordd o gyfrannu at hyn yw cynhyrchu llai o bapur. Felly, y rhifyn hwn o 'Tŷ Agored' yw'r olaf lle byddwch yn derbyn copi papur yn awtomatig.**

Ar gyfer rhifynnau o gylchgrawn Tŷ Agored yn y dyfodol, byddwn yn cynhyrchu fersiwn ddigidol fyddwch yn gallu ei derbyn drwy e-bost. Gallwch gofrestru i dderbyn y fersiwn ddigidol ar ein gwefan **www.abertawe.gov.uk/tyagored**

Os ydych chi eisoes wedi cofrestru ar gyfer y fersiwn ddigidol, byddwch yn parhau i'w derbyn os oes gennym gyfeiriad e-bost cyfredol ar eich cyfer. Os oes angen i chi ddiweddaru eich manylion, cysylltwch â ni.

Fodd bynnag, os hoffech barhau i dderbyn copi papur o gylchgrawn Tŷ Agored, gallwch wneud hynny ond mae'n RHAID i chi roi gwybod i ni. Gallwch e-bostio ni yn ✉ **tai@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch ☎ **01792 635045**.

Mae argraffiadau o gylchgrawn Tŷ Agored o'r presennol a'r gorffennol ar gael ar ein gwefan bob amser i chi eu darllen ac os ydych chi wedi gofyn am fformatau eraill megis print bras, byddwn yn parhau i anfon y rhain atoch.




# Allwn ni eich helpu?

Ydych chi'n cael trafferth darllen print mân neu efallai eich bod yn teimlo eich bod yn cael eich llethu gan yr holl wybodaeth rydych yn ei gweld ar lythyrau, taflenni a ffurflenni cais?

Os felly, gallwn ddarparu gwybodaeth i chi mewn ffyrdd eraill. Gallwn anfon gwybodaeth atoch mewn print bras, Braille neu ar gryno ddisg neu dâp. Os ydych yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg, gallwn hefyd ddarparu gwybodaeth i chi yn Gymraeg.

I dderbyn gwybodaeth mewn fformat arall, rhowch wybod i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy ffonio ☎ **01792 635045** neu e-bostio ✉ **tai@abertawe.gov.uk**.

Os oes angen help arnoch i lenwi ffurflen rydym wedi'i rhoi i chi, gofynnwch i'r staff yn eich Swyddfa Ranbarthol am gymorth.

Mae'n bwysig i ni eich bod yn gallu cael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael i chi gan y Gwasanaeth Tai; felly os hoffech i ni wneud pethau'n wahanol i chi, gofynnwch a byddwn yn hapus i wneud hynny.